

# Trychineb

A fydd eich busnes yn goroesi?

Nid oes gan

**65%**

o Fentrau bach i ganolog gynllun i ymdopi gyda'r posibilrwydd o risgiau fyddai'n tarfu ar weithrediad eu busnes business operations

*Ffederasiwn Busnesau Bach, 2018*

## Canllaw Gynllunio ar gyfer Parhad Busnes



**Pam ei fod yn bwysig, beth i'w  
wneud a lle i fynd i gael cymorth**

# Cynllunio Parhad Busnes

Mae Parhad Busnes yn rhagweld argyfwng a allai effeithio ar eich busnes ac mae'n cynllunio ar eu cyfer i sicrhau y gall y busnes barhau i weithredu pe byddai yna argyfwng.

Mae'n bwysig pe byddai yna drychineb, naturiol neu un a achoswyd gan ddyn, fod cynifer o fusnesau â phosibl yn parhau i weithredu a chael eu hadfer mor fuan â phosibl. Bwriad y cyngor hwn yw helpu busnesau i wneud hynny.

## Pam paratoi Cynlluniau Parhad Busnes?

Pe byddai yna argyfwng mae cael cynllun parhad busnes yn eich galluogi chi i ddychwelyd i drefn waith arferol yn y cyfnod byrraf posibl.

Gall sefydliadau, mawr neu fach gael eu taro gan drychinebau megis:

- ✓ Tarfu ar Fusnes, amharu ar logisteg
- ✓ Trosedd seiber, methiant TG, torri rheolau data
- ✓ Tân, Ffrwydrad
- ✓ Stormydd a llifogydd
- ✓ Prinder tanwydd
- ✓ Trosedd, Terfysgaeth, Aflonyddwch Sifil
- ✓ Halogi cynnyrch
- ✓ Methiant pŵer
- ✓ Colli enw da neu werth brand
- ✓ Colli adeilad neu staff
- ✓ Newidiadau mewn deddfwriaeth a rheoleiddio
- ✓ Methiant technegol neu amgylcheddol

... gan arwain at eich busnes yn methu ac yn arwain at un neu fwy o'r canlynol

- ✓ Colli incwm
- ✓ Niwed i enw da
- ✓ Colli cwsmeriaid a chyflenwyr allweddol
- ✓ Cosbau ariannol, rheoleiddiol a chyfreithiol
- ✓ Problemau adnoddau dynol
- ✓ Effaith ar bolisiau yswiriant
- ✓ Y busnes yn methu'n llwyr

Nid yw'r cynlluniau yn benodol ar gyfer argyfwng ond maent yn gyffredinol a gallant gynnwys trefniadau i:

- ★ Nodi sgiliau allweddol
- ★ Gweithio o gartref
- ★ Trosglwyddo o fewn yr adeilad
- ★ Trosglwyddo i leoliad arall
- ★ Adnoddau eraill
- ★ Cyflawni ymrwymïadau cyfredol
- ★ Cyflawni ymrwymïadau presennol
- ★ Darparu copïau wrth gefn, papur electronig

## Llunio Cynllun Parhad Busnes

Dilynwch y canllaw 5 cam hwn i lunio cynllun parhad busnes

### Cam Un - Dadansoddwch eich Busnes

Dadansoddwch pa rannau o'ch busnes sy'n hanfodol i sicrhau ei fod yn gweithredu. Meddyliwch am:

- ✓ Staff
- ✓ Adeilad
- ✓ Systemau TG
- ✓ Cyflenwyr
- ✓ Cwsmeriaid
- ✓ Amserlen
- ✓ Partneriaethau

### Cam Dau - Aseu'r risgiau

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i chi eich hun

- ✓ Beth sy'n debygol o ddigwydd?  
Tân, diffyg yn y pŵer, lladrad
- ✓ Sut y bydd yn effeithio ar fy musnes?  
Colli cyllid, cau'r adeilad

## Cam Tri - Datblygu eich strategaeth, ysgrifennwch y cynllun

Unwaith yr ydych wedi penderfynu o'ch asesiad risg beth sy'n bwysig i sicrhau fod eich busnes yn goroesi, gallwch ysgrifennu eich cynllun

### Beth i roi ynddo?


- ✓ Beth fydd y cynllun yn ei gyflawni a sut y bydd yn gweithio
- ✓ Strwythur eich tîm argyfwng a swyddogaethau pob aelod
- ✓ Rhestrau gwirio hanfodol
- ✓ Trefniadau i hyfforddi a phrofi eich staff
- ✓ Disgrifiad o'ch adeilad gan gynnwys cynllun gyda lleoliad offer ar gyfer Argyfwng

## Cam Pedwar - Datblygu eich cynllun

Unwaith mae wedi ei ddatblygu dylid adolygu eich cynllun yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol. Fe ddylai gael ei newid pan rydych yn symud swyddfeydd, newid cyflenwyr, pan fo staff allweddol yn ymddeol neu os ydych yn ehangu'r busnes

## Cam Pump - Ymarfer eich cynllun

Hyfforddwch eich staff yng nghynnwys eich cynllun fel bod pawb yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Ewch ati i ymarfer eich cynllun gyda senario posib. Diwygiwch eich cynllun os yw'r ymarfer yn amlygu unrhyw wendidau.



Er mwyn rhoi arweiniad i chi i ddilyn y camau uchod, gallwch ddefnyddio ein templed Rhestr Wirio Rheoli Parhad Busnes sydd am ddim ac yn ddogfen y mae modd ei lawrlwytho yma: [www.nwc-reps.org.uk](http://www.nwc-reps.org.uk)

# Am fwy o wybodaeth a chyngor ar Gynllunio Parhad Busnes chwiliwch drwy'r gwefannau canlynol

## Busnesau

Y Sefydliad Parhad Busnes:

[www.thebci.org](http://www.thebci.org)-UK Government:

<https://www.gov.uk/government/publications/preparing-for-emergencies>

## Yr Heddlu

Am gyngor ac arweiniad yn ymwneud â Pharhad Busnes a'r Heddlu, chwiliwch am eich cyswllt cymdogaeth leol

[www.north-wales.police.uk](http://www.north-wales.police.uk)

Am gyngor ar Wrth Derfysgaeth ewch i:

[www.act.campaign.gov.uk](http://www.act.campaign.gov.uk)

## Tân

Am gyngor ac arweiniad yn ymwneud â pheryglon tân a gofynion deddfwriaethol:

<http://www.nwales-fireservice.org.uk/>

## Llifogydd

[www.naturalresources.wales/flooding](http://www.naturalresources.wales/flooding) [www.naturalresources.wales/flooding](http://www.naturalresources.wales/flooding) i wirio os ydi eich busnes mewn gorlifdir a chofrestru ar y system Rhybudd o Llifogydd uniongyrchol

# Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru

Rhif ffôn: 01352 702124

E-bost: [enquiries@nwc-reps.org.uk](mailto:enquiries@nwc-reps.org.uk)

Gwefan: [www.nwc-reps.org.uk](http://www.nwc-reps.org.uk)



Yn gweithio ar ran



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL



Ymwadiad: Caiff y canllaw hwn ei ddarparu fel gwybodaeth gyffredinol am barhad busnes. Nid ei fwriad yw disodli canllawiau manwl a chynllunio ar gyfer eich busnes.